

ARLOESWYR

Gwen John - Artist

gan Joanna Davies



Contents

Gwen John	3
Pwy oedd Gwen John?	4
Y blynyddoedd cynnar	7
Atgofion am fam	9
Bywyd Llundain	10
Y Fenyw Newydd	13
Gweithio gyda Whistler	16
Paentio yn ôl Rhifau	17
Gwelw ond gwefreiddiol	18
Artist bach Duw	19
Trysorau cudd	21
Paentio ym Mharis	21
Darlunio cath	22
Creu delwedd o'r ddelfw	23
Mwy nac Ysbrydoliaeth	25
Y Rhyfel Mawr a thu hwnt	26
Gwen yn disgleirio	27
Y daith olaf	30
Gwaiddol Gwen	31

“Mae hon yn stori o gysylltiad, yn
hytrach nac ynysiad, o fenyw a oedd
yn rhan o ddiwylliant ei hoes”


- Alicia Foster



Gwen John (1876-1939)


Pe baech yn digwydd bod yn cerdded ar hyd y traeth yn Ninbych-y-pysgod tua 1890, efallai y byddech wedi gweld merch bedair ar ddeg oed yn braslunio cregyn môr yn ofalus yn ei llyfr braslunio. Does dim byd rhyfeddol amdani ar yr olwg gyntaf. Dim ond merch gyffredin yn ei harddegau o'i hamser yw hi.

Ond, wrth edrych yn agosach arni, byddech yn gweld fflach benderfynol yn ei llygaid wrth iddi fraslunio cragen arbennig o ddyrys dro ar ôl tro. Byddai'r ferch hon yn tyfu i fyny i fod yn Gwen John, un o artistiaid modern pwysicaf yr ugeinfed ganrif. Ond dim ond yn awr, ymhell i mewn i'r unfed ganrif ar hugain y mae ei doniau yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn.



Astudiaeth o Ferch' gan Gwen John (1918).

© Amgueddfa Cymru



Traeth Dinbych-y-pysgod yn Sir Benfro (tua 1890). ©KGPA Cyf / Alamy



Pwy oedd Gwen John?

'Dynes wallgof y cathod.'
'Meudwyes grefyddol.'
'Stelciwr Rodin!'

Ers marwolaeth ddramatig Gwen John yn 1939, mae wedi cael ei disgrifio yn llawer o bethau. Nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng y disgrifiadau hyn, a oedd yn aml yn rhai angharedig, â'i chelf. Y stori a adroddir yn aml yw ei bod yn artist a oedd yn byw yng nghysgod ei brawd, yr artist gwyh, Augustus John, (1878-1961), a'i chariad byd-enwog, yr artist a'r cerflunydd, Auguste Rodin, (1840-1917).

Rheolau i gadw pobl ðraw

Ei chysylltiad â Rodin, a ddechreuodd pan fu'n gweithio fel model artist iddo ym Mharis, yw'r peth cyntaf a grybwyllir gan bobl pan fyddwch yn dweud ei henw. Mae rhai ysgrifenyddwyr yn hoffi ei darlunio fel unigolyn trasig ac yn aml braidd yn druenus:



"Roedd, ar hyd ei bywyd, mewn cyflwr o gariad heb ei gydnabod, nid yn unig â phobl unigol, ond gyda'r byd yn gyffredinol, a'i bodolaeth hi ei hun." - Kristy McGrory

Ond roedd yn fwy na hynny. Roedd yn arloeswr, yn artist benywaidd unigryw, a gafodd yrfa lwyddiannus ym Mharis a edmygwyd hefyd yn America. Erbyn heddiw mae'n cael ei hystyried yn artist gwell na'i brawd. Nid oedd yn ymwneud â'r lleddf yn llwyr, er ei bod wedi treulio mwy o amser ar ei phen ei hun wrth iddi heneiddio. Ysgrifennodd gyfres o 'Reolau i gadw pobl draw' yn ei dyddiadur wedi'r cyfan! Mae'r rhain yn ddoniol i ni heddiw a gall llawer ohonom uniaethu â'r angen i gael ychydig o 'amser i fi fy hun':

- *'Peidiwch â gwrando ar bobl (mwy nag sydd raid)',*
- *'Peidiwch ag edrych ar bobl (fel uchod)',*
- *'Pan fydd yn rhaid i chi ðdod i gysylltiad â phobl, siaradwch cyn lleied â phosibl'...*

Yn ei llyfr gwyh, 'Gwen John, Art and Life in London and Paris' (2023), mae Alicia Foster yn cyfaddef iddi hithau ddisgyn i'r fagl hon i ddechrau:

"Mae'r myth o feudwy yn ddeniadol iawn...Mae wedi'i chamddarlunio ers blynyddoedd lawer. Cred barhaus ohoni fel unigolyn meudwyaidd, wedi'i hynysu wrth y byd celf. Mae'n ymddangos fel unigolyn humanfeddiannol, unigolyn penderfynol... gydag ymrwymiad didostur i'w chelf." - Alicia Foster

Daeth ei pherthynas â Rodin i ben yn wael ond mae'n bwysig cofio bod Gwen wedi dod drwy'r profiad ac wedi cynhyrchu ei gwaith gorau wedi hynny. Ni chefnodd ar fywyd ychwaith mewn gwirionedd. Cadwodd mewn cysylltiad â llawer o'i theulu a'i ffrindiau a bu'n rhan o gymuned grefyddol ym Meudon yn ei blynyddoedd olaf.

"Mae ei 'phaentiaidau lleian' o'r cyfnod ymysg ei gwaith mwyaf gwefreiddiol. Mae ei phortread o Mère Marie Poussepin - sylfaenydd lleian dy lleol a baentiodd John o gerdyn gweiddi - yn rhyfeddod bron yn oruwchnaturiol. Mae elfennau o ddylanwad Jean-Baptiste-Camille Corot, a Pierre Bonnard i'w gweld - cyfnas sych, brith gyda'r uchel fam yn syllu arnoch gyda chilwen sydd bron yn amlwg." - Katie McCabe



Mère Marie Poussepin (1653–1744)
gan Gwen John tua 1915–1920
© Amgueddfa Cymru

Mae'r syniad i Gwen fod yn unig ar ôl methiant ei pherthynas â Rodin wedi'i orliwio hefyd. Fel menyw ifanc, ysgrifennodd at Rodin hyd yn oed yn datgan bod yn well ganddi fod ar ei phen ei hun:

'Roeddwn yn ychydig o feudwy, ni wnaeth unrhyw un fy helpu neu fy neffro cyn i mi gwrdd â thi.'

Treuliodd ei blynyddoedd olaf mewn cartref tila, di-nod ym maestref Meudon ym Mharis. Ond roedd yn ffordd o fyw a oedd yn gweddu iddi. Heb unrhyw beth i dynnu ei sylw, gallai ganolbwytio ar ei gwaith paentio.

Wrth i'r hanesydd celf John Rothenstein astudio papurau Gwen, canfu gopïau niferus yr oedd wedi'u gwneud o'i llythyrau ei hun. Dyma oedd ei harddull gyda'i chelf hefyd. Byddai'n ail-ddrafftio, ac yn ail-lunio nes y byddai'n creu'r canlyniadau a ddymunai. Roedd eisiau i'w gwaith celf ymddangos yn 'naturiol' a dyma sy'n gwneud ei gwaith yn unigryw.



Merch mewn Ffrog Las
© Amgueddfa Cymru

"Mae'r palet ysgafn, sialcog a welir mewn portreadau fel 'Merch mewn Ffrog Las' yn gwneud i ni deimlo ein bod wedi byw gyda nhw ers blynyddoedd, fel hen ffotograffau o neiniau a theidiau sydd wedi'u gwynnu gan yr haul."

- Katie McCabe

Arddangoswyd gwaith Gwen yng Nghanolfan Celfyddydau'r Barbican yn Llundain yn 1985 a dewisodd y teitl, 'Bywyd Mewnol/An Interior Life', a oedd yn gyfeiriad at :

'Efallai na fydd gennyf byth unrhyw beth i'w fynegi, ac eithrio'r awydd hwn am fywyd mwy mewnol.'

Yn hytrach na dathlu ei dewis i fyw ei bywyd fel y dymunai, cafodd ei phortreadu fel menyw anwadal yn yr atig gyda'i chathod. Mae'r dehongliad hwn o'i chymeriad yn parhau hyd heddiw yn anffodus. Ond erbyn hyn, mae mwy a mwy o bobl yn sylweddoli bod Gwen wedi dewis y bywyd hwn i'w hun. Fel y cymeriadau y byddai'n eu paentio, roedd yr 'unigedd tawel' yn gweddu iddi.

"Mae merched John yn ymddangos yn dawedog a digynnwrf. Yn aml maent yn eistedd gyda'u dwylo ar eu glin gyda'u pen wedi troi ychydig; gydag ysgwyddau isel a mynegiant gwag. Mae merch ifanc bryd tywyll yn dal cath ddu gan syllu i'r pellter. Mae claf sy'n gwella mewn ffrog las blaen yn darllen llythyr, gyda phot o de wrth ei hochr. Mae menyw yn darllen llyfr ger ffenestr gyda llenni gingham, gan fwynhau bod ar ei phen ei hun." - Jim Carroll



Y blynyddoedd cynnar

*"Hanner canrif ar ôl fy
marwolaeth, byddaf yn cael fy
nghofio fel brawd Gwen John."*
- Augustus John

Cregyn môr a llyfrau braslunio

Byddai Gwen a'i brawd, Augustus, yn aml yn mynd â'u llyfrau braslunio gyda hwy ar deithiau cerdded ar hyd arfordir Sir Benfro. Wedi'i geni yn Hwlfordd, symudodd Gwen gyda'i theulu i dref glan môr hardd Dinbych-y-pysgod pan oedd hi'n blentyn ifanc. Hi ac Augustus oedd y set ganol o frodyr a chworydd mewn teulu o bedwar o blant. Cyfreithiwr oedd eu tad ac ystyrid y teulu yn 'barchus' ond nid yn gyfoethog.

Roedd Gwen wrth ei bodd gyda'r môr, yn paentio lluniau dyfrlliw o'r cregyn a ganfyddai ar draeth Dinbych-y-pysgod. Yn un o'i llythyrau olaf, cawn gipolwg posibl o'r hiraeth am adref yn ei hysgrif, "Rwy'n hiraethu am y môr." Roedd yn gysylltiad a gynhaliodd ar hyd ei bywyd, gan ddechrau gyda'i phlentyndod ar arfordir Sir Benfro.



Merch ifanc mewn het a chôt frown gan Gwen John
© Amgueddfa Cymru.

Dangosodd y brawd a'r chwaer ddawn arlunio yn ifanc. Trawsnewidiwyd yr atig yn stiwdio yn eu cartref teuluol a byddai Gwen yn darlunio portreadau o'u ffrindiau ifanc. Roedd Augustus wedi ymgartrefu yn Ysgol Gelf Slade, flwyddyn cyn ei chwaer hŷn. Am ei fod yn fachgen, nid oedd angen iddo sicrhau 'caniatâd' gan ei dad llym i ddilyn gyrfa ym myd celf.

Enillodd y ddau ohonynt wobrau yn yr Ysgol Gelf, ond dim ond Augustus a ddisgrifiwyd fel athrylith celf. Cafodd ei ddisgrifio hyd yn oed fel y 'Michaelangelo' newydd ar y pryd. Heddiw, gellid dweud bod ei waith yn ymddangos yn fwy 'hen ffasiwn' i ni yn yr 21ain ganrif. Tra bod gwaith twyllodrus o 'syml' Gwen yn parhau i ymddangos yn fodern iawn.

Daeth Augustus yn enwog ym Mhrydain ac America, ond nid oedd yn adnabyddus yn Ffrainc. Fodd bynnag, roedd Gwen eisoes wedi ennill clod mor gynnar â'r 1920au. Roedd ganddi fwy o ddiddordeb mewn moderniaeth, a oedd yn ffasiynol iawn yn Ffrainc ar y pryd, ac roedd Augustus yn fwy adnabyddus fel artist portreadau cymdeithas. I fod yn deg iddo, roedd yn rhaid i'w waith fod yn fwy confensiynol er mwyn plesio'r noddwyr cyfoethog a oedd yn talu iddo am eu tebygrwydd mewn celf. Roedd Augustus, a fu fyw i oedran mawr yn 83 oed, yn cydnabod mai Gwen oedd yr artist 'gorau' o'r ddau.

Pan gafodd ei gwaith mewn arddangosfa ei anwybyddu gan adolygwyr, ysgrifennodd:


"I mi, mae'r ðarluniau wedi'u gwefru'n boenus â theimladau, tra bod eu cymðogion yn amððifað ohonynt. Mae lluniau Gwen yn syfrðanol."

Roedd hefyd yn cydnabod yn graff bod Gwen yn gymeriad llawer mwy cymhleth nag yr oedd hi'n ymddangos i'r rhai nad oeddynt yn ei hadnabod yn dda:

"Nið oedd Gwen a minnau ar ðdau begwn, roedðem yn ðebyg iawn mewn gwirionedd, ond roedd gennym agwedd wahanol. Anaml iawn y byððaf yn 'afieithus'. Ond byððai hithau felly bob amser; yn ðdiwedðarach mewn ffordð ðrasig. Nið oedd yn ðdiwair nac yn ðawel, ond yn gariadus a balch. Nið oedd yn sleifio trwy fywyð, ond cynhaliodð annibyniaeth falch, a byððai rhai pobl yn camgymryð hynny am ostyngeiðrwyðð. Roedd ei hangerðð ðros ðdynion a merched yn feiððgar ac yn afresymegol. Byððai'n sicr yn creu argraff ar y rhai a fyððai'n ðodð i gysylltiað â hi."



Hunanbortread gan Augustus John, 1913 ©Artepics/Alamy



Portread ffotograffig o Augustus John yn 1909 gan Jacob Hilsdorf



Atgofion am fam

Roedd eu mam, Augusta, a fu farw pan oedd Gwen yn wyth oed, yn artist amatur dawnus. Roedd hi hefyd wedi astudio celf yn Llundain, mewn ysgol gelf breifat fechan. Roedd wedi addurno meithrinfa ei phlant gyda'i gwaith celf, a fu'n sicr yn ysbrydoliaeth i Gwen ac Augustus.

Gallwch weld dau o ddarnau cynnar Gwen yn yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod, y mae un ohonynt, paentiad olew, 'Tirlun yn Ninbych-y-pysgod gyda Ffigurau' yn arbennig. Dyma un o ddarnau cynharaf Gwen John, a'r unig enghraifft sydd wedi goroesi pan ddefnyddiodd cartref ei phlentyndod fel lleoliad yn ei gwaith celf. Mae'n dangos gwraig ifanc a merch yn cerdded ar Draeth y Gogledd, Dinbych-y-pysgod.



Darlun 'Pen Menyw', Gwen John tua 1910

Defnyddiodd Gwen ei chwaer, Winifred, fel y model ar gyfer y wraig. Fodd bynnag, mae rhai arbenigwyr celf o'r farn bod naws 'breuddwydiol' a 'hiraethus' y paentiad, gyda'r ferch ifanc yn edrych yn annwyl ar y wraig, yn awgrymu bod y ffigwr yn cynrychioli mam Gwen mewn gwirionedd. Mae'r ffordd y mae'r golau'n adlewyrchu ar yr adeiladau y tu ôl i'r ddau ffigwr yn pwysleisio gallu Gwen fel artist.



Olew ar gynfas, Tirlun yn Ninbych-y-pysgod gyda Ffigurau tua 1900.
© Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod.



Bywyd Llundain



Astudiaeth 'Menyw Ifanc mewn Ffrog Lasgoch' gan Gwen John
© Amgueddfa Cymru

Yn 1895 gadawodd Gwendolen Mary John ifanc ei chartref yn Ninbych-y-pysgod i fynychu 'ysgol berffeithio'. Dyma lle byddai merched dosbarth canol ac uwch yn cael eu hanfon i 'berffeithio' eu haddysg. Mynychodd Gwen "Sefydliad Addysgol Miss Philpott", sy'n swinio'n barchus iawn, yn Bayswater ger Llundain. Credir mai ei bwriad erioed oedd mynychu ysgol gelf, ond ei bod wedi awgrymu'n graff y dylai gael cyfnod mewn 'ysgol berffeithio' er mwyn ceisio darbwyllo ei thad i ganiatáu iddi adael cartref yn y lle cyntaf.

Nid arhosodd yn hir gyda Miss Philpott. Cyn gynted ag y gallai, cofrestrodd Gwen yn Ysgol Celfyddyd Gain Slade, ysgol gelf orau ei chyfnod ym Mhrydain. Symudodd i 23 Euston Square, a oedd yn agos at y coleg, yn hytrach nac ardal ansoffistigedig Camden. Roedd hyn yn wahanol iawn i'w bywyd tawel yng Ngorllewin Cymru. Y Slade oedd un o'r Ysgolion Celf cyntaf i dderbyn myfyrwyr benywaidd. Roedd Gwen yn rhan o'r genhedlaeth gyntaf o arlunwyr benywaidd i dderbyn addysg gelf ffurfiol.

Ystyriwyd Y Slade fel Prifysgol 'Cockney', ac nid mor 'grand' ag y gallai fod. Roedd yn Ysgol flaengar hefyd, oherwydd caniatwyd i fyfyrwyr benywaidd ddarlunio model gwrywaidd cwbl 'noeth' am y tro cyntaf. Roedd eu modelau bob amser yn gwisgo dillad isaf er gwyleidd-dra.



Dosbarth bywluniad yn y Slade tua'r 1880au. Sylwer bod y model yn gwisgo dillad isaf. © Pictorial Press Cyf / Alamy



Augustus barfog (ail chwith) a Gwen yn wên i gyd wrth ei ochr gyda myfyrwyr eraill y Slade yn mynd am bicnic Ebrill 1899 © Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol

I artist ifanc, roedd Llundain yn lle gwych i fyw ar ddiwedd y 1890au. Yn llawn casgliadau ac amgueddfeydd celf ysbrydoledig, gallai myfyrwyr fyw'n gymharol rad yno hefyd. Mae'n debyg i Augustus helpu Gwen i ddarbwylllo ei thad llym bod y Slade yn Goleg addas iddi ei fynychu. Treuliodd Gwen wyth mlynedd yn Llundain. Yn ystod ei chyfnod yno, gwelwyd newidiadau mawr yn y ddinas. Disgrifiwyd cyrchleoedd Gwen ger Euston Square gan Charles Booth, a ddisgrifiodd y stryd yn Llundain fel:

"...Yn fyw gyda chymysgedd o bobl: y dosbarth canol a'r cyfoethog, y rhai mewn angen ðybryð a 'chymeriadau amheus' i gyd yn byw boch ym moch."

Bu Gwen yn byw mewn cyfres o ystafelloedd rhad, ac arhosodd mewn tŷ adfeiliedig am gyfnod hyd yn oed. Yn ystod ei blyneddolaf yn y Slade, symudodd Gwen i Fitzroy Street, ger Tottenham Court Road, mewn tŷ lojin gyda myfyrwyr eraill, a oedd yn cynnwys ei brawd Augustus a'i chwaer Winifred a oedd yn fyfyrwraig cerddoriaeth. Roedd yn ardal 'gelfyddydol' am ei bod mor agos at yr Ysgol Gelf. Roedd James Abbott McNeill Whistler, (1834-1903), yr artist enwog, a fyddai'n ffigwr pwysig yn ddiweddarach yng ngyrfa Gwen, yn gweithio mewn stiwdio ar yr un stryd yn 1896.

Mae paentiad Gwen, 'Portrait Group' (tua 1897-1898), yn dangos cyd-fyfyrwyr Gwen, gan gynnwys ei chwaer Winifred (yn eistedd), a'i brawd, Augustus (yn y canol), yn eu tŷ lojin. Yn ddiddorol, mae Gwen wedi lleoli ei hun yn yr ardd, ac nid yn yr ystafell gyda'r gweddill. A yw hyn yn awgrymu ei bod yn ystyried ei hun "ar wahân" ac nad yw wir yn rhan o'r grŵp? Neu a oedd eisiau cynnwys yr elfen awyr agored er mwyn ychwanegu diddordeb i'r paentiad?



Portread Grŵp gan Gwen John

© Amgueddfa Gelf UCL, Coleg Prifysgol Llundain, DU/ bridgemanimages.com

Gallwn weld o'r paentiad hwn fod yr ystafell yn eithaf gwag. Mae lliwiau bywiog yn y paentiad ac mae hefyd yn dangos cyfeillgarwch a rhyddid. Mae Gwen yn aml yn cael ei phortreadu fel yr artist 'dioddefus', ond yn ei hieuenctid yn arbennig, roedd yn gymdeithasol ac yn cael hwyl gyda ffrindiau. Byddai'n mynychu partïon gwisg ffansi y myfyrwyr, er enghraifft.



Myfyrwyr yn Ysgol Gelf Slade ddechrau'r 1900au.

"Rwy'n credu os ydym am greu ðarluniau hardd, y dylem fod yn rhydd o gonfensiynau a rhwymau teuluol." - Gwen John

Yn 1894, bathwyd y term 'Y Fenyw Newydd' ar gyfer ffigwr a oedd yn ymddangos mewn cartwnau papurau newydd ac fel caricaturiau ar y llwyfan yn y cyfnod. Fel arfer roedd ganddi wallt blêr, roedd yn smygu sigarét ac yn cario pentwr o lyfrau. Roedd hwn yn ymateb cyhoeddus cryf i genhedlaeth newydd o ferched, fel Gwen, a oedd yn mynd i'r Coleg i ddilyn gyrfaedd academiaidd neu artistig. Cawsant eu beirniadu'n hallt am nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn dod o hyd i wŷr neu chwarae rôl ddomestig. Mae bywgraffydd Gwen, Alicia Foster, yn disgrifio'r 'Fenyw Newydd' fel un sy'n cael ei hystyried yn 'beryglus':

"Roedd hi'n hynod ddi-ddorol i'r cyhoedd oherwydd roedd hi'n cael ei hystyried yn beryglus o rydd... Pe bai merched yn gweithredu ar eu dyheadau heb ofn a dynion yn colli rheolaeth arnynt, be fyddai diwedd hynny? Roedd yr hiwmor yn cuddio difrifoldeb y newid ar ðroed."



Y 'Fenyw Newydd' o gylchgrawn Puck Oppen, Frederick Burr, 1857-1937, artist, Cyhoeddus, drwy Wikimedia Commons

Ni ddaeth Gwen yn agos at briodi yn ystod ei bywyd. Syrthiodd mewn cariad a chafodd berthnasoedd, ond mae'n ymddangos mai ei chelf oedd ei phrif flaenoriaeth mewn bywyd. Byddai cael gŵr a theulu yn y dyddiau hynny'n golygu y byddai'n rhaid rhoi'r gorau i'w chelfyddyd. Fel yr esbonia Alicia Foster:

"...Mae'n ymddangos ei bod wedi derbyn y byddai (ei bywyd) yn canolbwyntio ar ei heiddo mwyaf gwerthfawr, ac roedd hi'n gwbl sicrhono, ei dawn."

Nid oedd llawer o fodelau rôl i Gwen oherwydd prin iawn oedd arlunwyr benywaidd ym Mhrydain ar ddiwedd Oes Fictoria. Nid oedd orielau mawr Llundain yn arddangos llawer o waith gan fenywod 'chwaith. Dim ond pum paentiad gan fenywod o gyfanswm o 253 oedd yn Oriel y Tate, (a elwir hefyd yn Tate Britain), a agorodd yn 1897.

Ysgrifennodd ffrind Gwen a'i chyd-artist, Gwen Salmond, at ffrind y ddwy, yr artist gwrywaidd, Michael Salaman: "Diolch i Dduw eich bod wedi troi allan yn ddyn ac nid yn fenyw... melltith ofnadwy yw bod yn ferch."

Roedd Gwen dan anfantais fel artist benywaidd, gan fod dynion yn cael eu hystyried yn artistiaid "go iawn". Fodd bynnag, roedd hi'n benderfynol ac nid y cymeriad 'swil' y credai rhai pobl oedd oherwydd ei hymddangosiad 'diymhongar'. Mae hunanbortread a baentiodd Gwen yn 1900 yn dangos yr artist 24 oed mewn ystum hyderus. Mae gan y 'fenyw newydd' hon ei llaw ar ei chlun, mae'n edrych yn uniongyrchol arnom ac yn llenwi'r cynfas.

Hunanbortread o Gwen John tua 1900
© Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol, Llundain



Mae'r Oriel Bortreadau Genedlaethol, sef cartref y paentiad heddiw, yn disgrifio'r paentiad fel hyn:

"Mae gwerthoedd y lliwiau a'r arlliwiau yn gynnwl, mae'r paent olew wedi'i baentio'n ysgafn ar y cyfnas gyda manwl gywirdeb obsesiynol, gan gyfleu'r plygiadau a'r pletiau'n ofalus o'r cwlwm rhuban am ei gwddf a'i blows browngoch. Mae siâp ei llaw ar led yn adleisio ffurf 'pwff' ei llawes goes ðafad ac mae'n ein hatgoffa o hunanbortreadau'r 'hen feistri'... mae Gwen John yn awgrymu rhinwedd bersonol hynod a choeth ei hun."



Portread o Dorelia yn Toulouse gan Gwen John tua 1903

Yn sicr nid oedd gan Gwen ofn torri confensiynau. Yn 1903, aeth ar daith gerdded yn Ffrainc gyda'i ffrind, Dorothy, (a elwid yn ddiweddarach yn 'Dorelia', partner oes Augustus John). Gwnaethant arian trwy greu portreadau o bobl y byddent yn eu cyfarfod mewn trefi a phentrefi. Pan na fyddent yn gwneud digon o arian, byddent yn cysgu yn y caeau. Roedd hyn yn feiddgar i ferched dosbarth canol y cyfnod.



Gweithio gyda Whistler

"Mae yna bobl, fel planhigion, na allant ffynnu yn yr oerfel, ac rydw i eisiau ffynnu." - Gwen John



Hunanbortread gan James Whistler.

Ar ôl ei chyfnod yn y Slade, aeth Gwen i Baris i astudio gyda James Whistler, artist adnabyddus o America. Gwen fyddai un o'i fyfyrwyr mwyaf adnabyddus yn yr ysgol fyrhoedlog, yr Académie Car-men (1898-1901).

Disgrifiodd Augustus ddylanwad Whistler ar Gwen fel artist:

"Gyda rhai o'i ffrindiau a oedd yn gyð-fyfyrwyr, treuliodd gyfnod ym Mharis o dan arweiniad Whistler. Dyma pryd y mireiniodd yr arddull gofalus, y chwaeth ddeitholus a'r arlliwiau cywrain a fu'n elfennau annatod yn ei gwaith wedi hynny."

Pwysleisiodd Whistler bwysigrwydd defnyddio arlliwiau a lliwiau wrth baentio gydag olew. Roedd pwysigrwydd 'lliw' a dull trefnus o'i ddefnyddio yn rhywbeth a ddefnyddiodd Gwen ar hyd ei gyrfa artistig. Disgrifiodd ei ffrind Edna Clarke Hall, cyd-fyfyrwraig alluog yn y Slade, Gwen yn addysgu arddull 'Whistler' iddi:

"...roedd [Edna] yn cofio yn anað dim, Gwen John yn mynnu palet glân a threfnus, ei sylw manwl i gywirdeb arlliwiau...a'i chyfarwyddo cyson "Os nað yw'n iawn, tynnwch ef allan!" ... Trefnusrwydd a dull a phwyslais ar "arferion da" oedd yr hyn y byddai Whistler yn ei bregethu i'w fyfyrwyr."



Paentio yn ôl Rhifau

Pan fu'n astudio gyda Whistler, byddai'n dweud, 'celf yw gwyddoniaeth harddwch'. Roedd paentio mewn ffordd 'wyddonol' yn gwneud synnwyr i Gwen. Er mwyn cofio ei phaletau lliw, defnyddiodd system rifo. Byddai'n cynllunio ei phaentiadau mewn llyfrau nodiadau, gyda rhifau arnynt a oedd yn fwy tebyg i fathemateg na chelf.



Un o baentiadau Gwen sy'n dangos ei system 'rhifau'
© Amgueddfa Cymru

Byddai'n creu brasluniau cyflym o'r gwrthrychau, pobl neu leoedd yr oedd am eu paentio. Roedd y dull rhifo hwn a'r nodiannau lliw yn ffordd iddi gofio arlliwiau neu liwiau'r gwrthrychau yn ei brasluniau.



welw onð gwefreiddiol

Wrth daflu golau drwy gefn cynfas paentiad gellir gweld cyn lleied o baent a ddefnyddiwyd gan Gwen yn ei phaentiadau. Fel y noda Neil Lebeter, Uwch Guradur Celf yn Amgueddfa Cymru:

"Mae hyn yn amlygu gallu John i gynhyrchu gwaith mor ðeimladwy heb ddefnyddio unrhyw baent o gwbl mewn gwirionedd, nid oes unrhyw beth yna bron."

Byddai Gwen hefyd yn paentio 'o'r ymylon' ac yna'n gweithio am i mewn, sy'n dechneg anodd ei chyflawni. Fel enghraifft, edrychwch ar y paentiad anorffenedig hwn yn Amgueddfa Cymru.



Paentiad anorffenedig Gwen John
© Amgueddfa Cymru



Paentiad anorffenedig Gwen John yn dangos
techneg yr artist o baentio am i mewn.
© Amgueddfa Cymru

(Ar y Chwith) Fel y gwelwch, nid yw nodweddion yr wyneb wedi'u paentio eto. (Ar y Dde) fersiwn fwy gorffenedig o'r paentiad. Fe welwch mai nodweddion yr wyneb oedd rhan olaf y paentiad bron i'w cwblhau.

Fel yr eglura Neil Lebeter:

"Yr hyn a wna yw cynyddu'r ymðeimlad mai'r un peth yw'r cefndir a'r eisteddwr – nid yw'r ffigwr, ac yn enwedig nodweddion yr wyneb, yn cael unrhyw bwysigrwydd arbennig dros weddill strwythur y paentiad."



Artist bach Duw

O tua 1913, trodd Gwen at Babyddiaeth. Disgrifiodd ei hun fel 'artist bach Duw'. O ganlyniad, mae llawer o'i darluniau yn ystod y cyfnod hwn o bobl yn yr eglwys. Dangosir y rhan fwyaf ohonynt yn bennaf o'r ochr neu'r cefn, a dyna sut yr oedd Gwen wedi edrych arnynt wrth fraslunio.



'Ffigwr yn yr Eglwys' gan Gwen John © Amgueddfa Cymru

Yn ei darlun, 'Ffigwr yn yr Eglwys', mae lliw'r ffrog yn ddyfrlliw ysgafnach o'r un lliw â'r het. Wrth edrych yn fanwl fe welwch bod y gwallt yn gymysgedd o liwiau'r cefndir a'r het. Byddai Gwen yn defnyddio lliw yn ofalus er mwyn i liwiau'r paentiad gorffenedig weddu i'w gilydd.



Dwy wraig yn eistedd yn yr eglwys gan Gwen John
© Amgueddfa Cymru /Heritage Images

Roedd Gwen yn gymaint o berffeithydd, byddai'n aml yn paentio wyth fersiwn gwahanol o'r un darlun. Byddai'n braslunio'r gwreiddiol yn yr eglwys, ac yna'n gweithio arno. Roedd Gwen yn gweithio gyda 'gouache', lle mae pigmentau'n cael eu malu'n bowdr, ond ddim mor fân â'r dyfrlliw arferol. Rhoddodd hyn 'wedd' unigryw i baentiadau Gwen.

Weithiau byddai Gwen yn mynd i helynt am fraslunio yn yr Eglwys. Ar un achlysur dywedodd y Curad wrthi bod darlunio yn yr Eglwys yn bechadurus iawn. Ond ni wnaeth hyn ei hatal!

Mae ei chofianwyr wedi awgrymu bod yr Eglwys a'i chariad at Dduw wedi cymryd lle ei hangerdd dros Rodin. Ond roedd hi bob amser yn grefyddol. Fodd bynnag, roedd yn wir fod Gwen yn dueddol o syrthio mewn cariad heb ei gydnabod gyda dynion a merched. Syrthiodd yn ddwfn mewn cariad â Vera, ei ffrind gorau er enghraifft. Rhoddodd ddarlun yr wythnos iddi am gyfnod maith i ddangos ei hanwyldeb mawr tuag ati. Darganfuwyd y darluniau hyn mewn cês flynyddoedd yn ddiweddarach.



Trysorau cudd

Roedd yn artist toreithiog ac mae ei gweithiau'n parhau i gael eu darganfod mewn mannau annisgwyl. Byddai'n aml yn creu 'albymau' neu lyfrau lle byddai'n cadw ei phaentiadau a'i darluniau. Dim ond fel cyfres mewn llyfr yr oedd wedi bwriadu i'r gweithiau hyn gael eu gweld ac nid eu torri a'u fframio. Dim ond yn 2011 y cafwyd hyd i ddau albwm, a oedd yn cynnwys 23 o ddyfrlliwiau heb eu llofnodi, yn archifau Prifysgol Princeton yn America.

Roeddynt wedi'u storio yno fel rhan o bapurau'r Bardd Prydeinig, Arthur Symons am dros 60 o flynyddoedd. Cafodd yr albymau eu harddangos gan y Brifysgol yn Oriel y Llyfrgell. Nododd yr Athro Anna Grutezner Robins yr albymau fel rhai Gwen John a thalodd deyrnged iddi ar y pryd:

"Mae darganfyddiad dau albwm Symons yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddealltwriaeth o'i mawredd."



Painting in Paris

Newidiodd arddull Gwen ym Mharis, gyda dylanwad yr argraffiadwyr. Byddai'n cymysgu sialc i mewn i bigment y paent a oedd yn creu effaith unigryw, fel mosäig bron yn ei phaentiadau. Fel yr arlunydd Ffrengig gwych, Cézanne, byddai hefyd yn gadael rhannau o'r cyfnas yn foel. Nid oedd hyn er mwyn creu paentiadau "real iawn". Roedd artistiaid modernaidd yn dangos y deunyddiau yr oeddynt yn eu defnyddio, er mwyn i'r gwylwr fod yn ymwybodol bob amser mai 'celf' ydoedd.

Roedd arddull hynod gyfnewidiol Gwen, o'i phaentiadau olew cynharach i'r ffordd hollol wahanol hon o baentio, yn dangos maint ei thwf fel artist.

Roedd estheteg, neu sut roedd pethau'n edrych, yn bwysig iawn i Gwen. Gwisgodd ei modelau mewn ffordd arbennig a gosodwyd yr eitemau yn yr ystafelloedd a baentiodd yn ofalus yno.



*Ystlyslun o ferch
(olew a sialc
ar gynfas) gan
Gwen John*

© Amgueddfa
Cymru



*Yr Ystafell Fach 1926, Gwen John
© Amgueddfa Cymru*



Darlunio cath

Roedd Gwen hefyd yn hoff iawn o'i chathod anwes, a byddai'n eu darlunio'n ddi-baid. Fe arweiniodd yr obsesiwn hwn o baentio cathod at rai beirniaid yn ei galw yn 'ddynes wallgof y cathod', ystrydeb negyddol a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio merched di-briod yn y cyfnod. Roedd ganddi hoff gath, cath drilliw a alwodd yn 'Edgar Quinet'.



Portread o Edgar Quinet, y gath 1906, Gwen John

Roedd Gwen hefyd yn ymarferol drwy ddewis ei hanifeiliaid anwes ar gyfer paentiadau. Am ei bod yn byw ac yn gweithio mewn un ystafell, roedd yn rhaid iddi ddefnyddio beth bynnag a oedd ar gael i ddarlunio. Gan eu bod yn greaduriaid ystyfnig sy'n symud yn gyflym, roedd hefyd yn arfer da iddi dynnu llun o'i hanifeiliaid anwes. Mae'r gath hefyd yn greadur sy'n annibynnol a digymar, ysbryd apelgar iawn at Gwen fel personoliaeth hefyd.



Creu delweddd o'r ddelfw

Roedd Gwen yn adnabyddus am ei gosgeiddrwydd corfforol, a bu'n fodel artist llwyddiannus yn ei hieuenctid. Roedd yn ymfalchïo y gallai ddal ystumiau anodd am oriau lawer.

Pan gyrhaeddodd Paris yn 1904, bu'n rhaid i Gwen gael bywoliaeth am nad oedd ganddi unrhyw arian preifat ei hun. Llwyddodd i wneud hyn drwy fod yn fodel bywluniadau i artistiaid a thrwy werthu ei phaentiadau. Penderfynodd ymweld â stiwdio Auguste Rodin i weld a allai gael gwaith yno. Ef oedd y cerfluniwr enwocaf yn y byd ar y pryd, gyda stiwdio anferth a nifer o gynorthwyr. Ond roedd Gwen yn ddigon hyderus i gynnig ei gwasanaethau fel model bywluniadau.


Yn y cyfnod hwn, tybiwyd ei bod yn warthus i fenyw fynd allan heb wisgo menig a het. Roedd bod yn y gofod hwn, yn noeth, ac yn gwbl hamddenol a diymdrech, fel model artist, yn eithaf chwyldroadol ac 'arloesol'. O fewn blwyddyn hi oedd hoff fodel a chariad Rodin. Dylanwadodd ar ei chelf hefyd, fel yr eglura Alicia Foster:

"Yr hyn a ddysgodd gan (Rodin) oedd rhwyddineb aruthrol, wedi'i orchuddio â dyfrlliw. Cynnil, mynegiannol. Roedd Slade wedi addysgu arddull disgrifiadol egniol iawn ac roedd hyn yn rhywbeth newydd i Gwen. Wrth wyllo Rodin yn gweithio, cafodd ei dylanwadu a'i hysbrydoli gan ei arddull."

Pan anfonodd y paentiad 'La chambre sur la cour,' ('Yr Ystafell yn y Cowrt'), i'w werthu yn Llundain, dywedodd, 'Rwy'n Barisiad yn awr.' Roedd paentio'r tu mewn i ystafelloedd yn rhan o foderniaeth Parisaidd a daeth yn boblogaidd iawn. Mae ystafell yn cynrychioli bywyd bob dydd ac mae hefyd yn datgelu rhywbeth am ei phreswyllydd. Yr hunan mewnol yn ogystal â'r byd y tu allan.



*Cast efydd modern o ben plastr o Gwen John gan Rodin tua 1906
© Amgueddfa Cymru*



Auguste Rodin tua 1891



Cornel o Ystafell yr Artist ym Mharis 1907-1909 Gwen John
© Amgueddfa Cymru



Fersiwn arall o'r paentiad
© Amgueddfa Cymru

Dyma'r hyn a elwir yn 'farddoniaeth y dydd'. Gwelwn 'gliwiau' am berchennog yr ystafell er nad ydyn nhw yno. Mae cot wedi'i gosod dros y gadair, mae parasol yn aros am ei pherchennog, ac mae'r haul yn gorlifo trwy'r ffenestr agored hefyd. Nododd Neil Lebeter:

"Mae'r artist yn ymddangos yn bresennol er na ellir eu gweld."

Fe baentiodd Gwen nifer o fersiynau gwahanol o'r ystafell hon, ac ys-grifennodd am ei hoffter ohoni:

"Rhaid i mi ddweud wrthy... am y teimlad o foddhad y mae fy ystafell yn ei roi i mi. Rwy'n bwyta fy mwyd wrth y bwrdd ger y ffenestr... Gyda'r nos, mae fy ystafell yn rhoi teimlad aruthrol o bleser i mi."

Pan fyddai'n gadael ei hystafell, byddai'n crwydro strydoedd Paris a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Pe bai'n cerdded yn rhy bell i gyrraedd adref, byddai'n cysgu y tu allan, hyd yn oed o dan wrych weithiau! Byddai'n darlunio golygfeydd nos hefyd wrth grwydro yn y nos. Nid dyna oedd merched yn ei wneud ar y pryd, ond doedd dim ots gan Gwen.

"Mae angen agwedd arbennig o ddi-drugaredd ar artistiaid. Ond roedd yn anarferol i fenywod yn y cyfnod hwn feddu ar yr hunangred a'r ymrwymiad llwyr hwn i roi ei chelf yn gyntaf ac roedd ganddi hynny." - Alicia Foster



Mwy nac Ysbryðoliaeth

Roedd Rodin hyd yn oed wedi'i dewis fel ei fodel pan gafodd ei gomisiynu i gynhyrchu cerflun coffa o Whistler, a fu farw yn 1903. Er na chafodd ei arddangos yn gyhoeddus ar y pryd, roedd yn gerflun pwysig am ei fod yn dangos ysbryðoliaeth fenywaidd. Dangoswyd Gwen, fel y model, yn dringo 'mynydd enwogrwydd', y dywedir ei fod yn cyfleu'r anawsterau yr oedd Whistler wedi'u hwynebu a'u trechu.

"Roedd creu portread cywir o James McNeill Whistler ar ei ben ei hun yn rhy syml i Rodin. Roedd eisiau mynegi mwy nac ymddangosiad allanol Whistler – i ddangos ei syniadau, ei redðfau a'i gelf. Meddyliondd am yr hyn a ysbryðolodd Whistler: model benywaidd, gosgeiddig...o'r enw Gwen John." - Sister Magazine

Gallwch hefyd weld cast modern o ben Gwen John wedi'i gerflunio gan Rodin yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.


Yn ogystal â chael perthynas hir gyda hi, roedd Rodin yn adnabod dawn Gwen hefyd ac yn mynd â'i gwaith i'w werthu ar ei rhan. Nid hi oedd 'ei ddioddefwr' o gwbl. Mewn gwirionedd, nid oedd angen unrhyw 'rym' arall ar Gwen i ysgogi ei chelf. Mae Katie McCabe yn cyfleu hyn orau:

"Awgrymir weithiau iddi ddisodli ei hangen am Rodin gyda Duw, fel pe bai angen mwy o danwydd ar fyth tanbaið athrylith anghyffyrddadwy." - Katie McCabe

Bu Gwen mewn perthynas â Rodin am 10 mlynedd ac anfonodd llythyrau lu ato, hyd yn oed ar ôl i'w perthynas ddod i ben. Roedd llawer o'r llythyrau hyn wedi'u storio yn atig Musée Rodin ym Mharis ac wedi'u labelu yn Ffrangeg fel "Llythyrau diflas/anniddorol"!



Cerflun enwog Rodin Gwen John yn coffáu Whistler yng ngardd Musée Paris



Autoportrait a la Lettre
Gwen John tua 1907-09.
© Musée Rodin



Y Rhyfel Mawr a Thu Hwnt

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, (1914-1918), fe ymwelodd Augustus â Gwen i'w darbwylo i ddod adref oherwydd bod Paris yn cael ei bomio a bod ei bywyd mewn perygl. Ond gwrthododd Gwen ystyfnig, ac arhosodd ym Mharis. Erbyn hyn roedd ganddi noddwr mawr ei fri, cyfreithiwr Americanaidd, John Quinn, (1870-1924), a oedd yn prynu darnau celf gwych, gan gynnwys ei phaentiadau hi. Cynigiodd Quinn i dalu cyflog iddi hyd yn oed i anfon gwaith ato. O ganlyniad, gallai Gwen fforddio stiwdio gelf ym Mharis o'r diwedd.

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth yn ffrind i'r bardd enwog o Awstria, Rainer Maria Rilke, (1875-1926), sef ysgrifennydd Rodin. Roedd gan y ddau arddull twyllodrus o syml tebyg i'w gwaith. Yn union fel y byddai'n rhaid i bob gair gyfri mewn cerdd, ni allech gael unrhyw beth nad oedd ei angen mewn paentiad chwaith.



John Quinn gan John Butler Yeats
1908

Roedd paentiadau Gwen yn boblogaidd iawn ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd pobl eisiau llonyddwch ac ymdeimlad o heddwch. Roedd y 1920au yn gyfnod hapus iddi wrth iddi werthu'r rhan fwyaf o'r hyn a ddangosodd yn yr arddangosfeydd celf. Parhaodd y llwyddiant mawr hwn am tua phum mlynedd.

"Pan fyddwn yn casglu (paentiadau Gwen) ar gyfer arddangosfa, rwy'n cael fy synnu bob tro eu bod mor fach. Ond mae ganddyn nhw'r pŵer disglair aruthrol yma sydd bob amser yn fy rhyfeddu." - Alicia Foster

Roedd gan Gwen dueddiad o hyd i syrthio i mewn ac allan o gariad yn gyflym. Syrthiodd mewn cariad â newyddiadurwr benywaidd, Jeanne Robert Foster, a oedd yn gweithio fel sgowt i'w noddwr, John Quinn. Yn anffodus nid oedd Jeanne yn teimlo'r un fath. Ysgrifennodd at Jeanne:

'Mae fy nghariaid atat ti fel trefniant o ddail gwyrdd mewn jwg, syml a hardd iawn.'




Blodau mewn fâs, Gwen John tua 1920au
© Amgueddfa Cymru

Roedd hyn yn nodweddiadol o Gwen, yn creu delwedd sy'n farddonol iawn, ond yn syml iawn hefyd. Yn wahanol i Van Gogh ac artistiaid eraill, a oedd yn dewis blodau lliwgar, garddwrol (neu grand) ar gyfer eu pynciau celf, roedd ei diddordeb hi mewn trefniadau mwy syml o flodau gwylt.



Gwen yn ðisgleirio



*Portread o Gwen John gan Ambrose McEvoy yn 1901
© Heritage Image Partnership Cyf/ Alamy*

Yn ystod ei bywyd, dim ond un arddangosfa unigol o waith Gwen a gynhaliwyd, yn Oriel Chenil yn Llundain yn 1926. Tan yn ddiweddar, anaml iawn y mae ei gwaith celf wedi derbyn sylw mewn orielau mawr. Yn 1985, 46 o flynyddoedd ar ôl ei marwolaeth, cynhaliwyd yr arddangosfa oriel fawr gyntaf o'i gwaith yn y Barbican, o'r enw 'An Interior Life'.

Fodd bynnag, mae Alicia Foster yn cyfeirio at y ffaith bod ffocws yr arddangosfa hon yn gamarweiniol, gan awgrymu bod bywyd mewnol Gwen yn golygu popeth iddi ac nad oedd y 'byd tu allan' yn bwysig. Nid oedd Gwen eisiau ymneilltuo o fywyd ei hun, yr hyn yr oedd ei eisiau oedd amser i ganolbwyntio ar ei gwaith celf.



Mae dau o baentiadau Gwen ar ochr chwith y ffotograff hwn ac mae dau o baentiadau Augustus ar y dde yn Arddangosfa Tate yn 2004-5. © Independent/Alamy

Yn 2005, cynhaliodd Tate Britain arddangosfa o baentiadau Gwen ac Augustus John, gan wadu llwyfan ei hun i Gwen unwaith eto. Wrth arddangos gwaith y brawd a'r chwaer ochr yn ochr, nododd y Tate ar y pryd:

'Mae ei thechneg ðrefnus a'i phalet o liwiau cynnil a llwyðlas mewn cyferbyniad uniongyrchol â lliwiau gorchestol a ðisglair Augustus.'

Mae bywgraffydd Gwen, Alicia Foster, yn nodi bod artistiaid benywaidd yn parhau i gael llai o sylw mewn orielau ac amgueddfeydd yn gyffredinol na'u cymheiriaid gwrywaidd. Fodd bynnag, gwnaed cyfiawnder â hi o'r diwedd mewn arddangosfa wedi'i churadu gan Foster, yn seiliedig ar ei llyfr am Gwen, a ddangoswyd yn Amgueddfa Holburne, Caerfaddon rhwng Hydref-Ebrill 2024.



Gwen John: Arwyddion arddangosfa Celf a Bywyd yn Llundain a Paris yn Amgueddfa Holburne, Caerfaddon ©Joanna Davies

Roedd yr arddangosfa wych hon yn canolbwyntio ar ei chelf mewn perthynas â'r ddwy ddinas lle bu'n byw ac yn gweithio, Llundain a Pharis. Ei nod oedd 'chwalu'r myth fod yr arlunydd yn feudwy ecsentrig.' Fe'i canmolwyd gan feirniaid fel y darlun gwirioneddol gywir cyntaf o Gwen John fel cymeriad ac artist:

"Roedd hi'n byw yn hunanol, yn ddi-baid ac yn llwyr. Mae ei bywyd cymaint â'i chelf yn ei gosod yng nghanol y traethodiaid moderniaid ac mae'r arddangosfa hon yn ymgymryd yn ddewr â'r dasg o ddatgan ei phwysigrwyd yn hanes celf fodern.." - Eliza Goodpasture



Gwen John: Arddangosfa Celf a Bywyd yn Llundain a Paris 2024 © Holburne Museum

Byddai Gwen wedi cymeradwyo hyn oherwydd roedd bob amser yn hyderus o'i doniau ac yn barod i feirniadu artistiaid mawr y cyfnod. Mae'r artist byd-enwog, Picasso, hyd yn oed yn cael ei ddisgrifio gan lygad beirniadol Gwen mewn llythyr at ei noddwr, John Quinn:

"Rwy'n credu bod dy ddarluniau gan Picasso yn goeth iawn, ond nid ydynt at fy nant i."

Ni phylodd ei hunangred o gwbl, hyd yn oed pan oedd yn brwydro i wneud bywoliaeth gyda'i gwaith celf. Petai wedi'i disgrifio fel unigolyn didostur a phenderfynol, a fyddai hyn wedi'i gwneud yn ffigwr llai "rhamantus" na'r ffigwr unig, swil a thrasig i raddau a fu'n destun canmoliaeth beirniaid celf dros y blynyddoedd?

"Mae'n bosibl y bydd gwir ddirgelwch bywyd Gwen John yn ymwneud llai â'i swildod a mwy gyda'r broblem pam ein bod yn cael cymaint o anhawster i ddychmygu ffordd o fyw ac agwedd meddwl artist benywaidd yn byw ar ei phen ei hun." - Sue Roe

"Pe byddai Gwen John wedi dymuno bod yn artist meudwyaidd, roedd lleoedd gwell y gallai fod wedi mynnd na Llundain a Pharis ar droad y ganrif." - Alicia Foster



Claf yn Gwella gan Gwen John tua 1923-24 © Amgueddfa Fitzwilliam Caergrawnt

Erbyn y 1930au, roedd iechyd Gwen wedi dirywio ac roedd yn fwyfwy bregus. Ni allai baentio, roedd yn cael anhawster i fwyta, cerdded a sefyll. Yn gynnar yn yr Hydref, 1939, ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, roedd yn dyheu am weld y môr eto. Llwyddodd i deithio i Dieppe, tref glan y môr a oedd yn gyrchfan boblogaidd i artistiaid y cyfnod. Wrth gyrraedd yno, llewygodd ac aed â hi i'r ysbyty.

Mae'n rhaid bod Gwen yn gwybod ei bod yn marw oherwydd trefnodd i gyfreithiwr ddod i'r ysbyty i lunio ei hewyllys olaf. Gadawodd ei thŷ a'i gwaith i'w nai, Edwin John (1905-1978), pedwerydd plentyn Augustus ac Ida. Bu farw ar 18 Medi 1939, yn 63 oed.



Gwaaddol Gwen

"Mae'n drueni iddi farw yn 63 oed, gan y byddai ei gwaith wedi parhau i ddatblygu i'r holl gyfeiriadau di-ddorol hyn."

- Alicia Foster

Mae Gwen John yn cael ei pharchu'n haeddiannol yn awr fel artist pwysig yr ugeinfed ganrif. Gallwch weld casgliad gwyb o baentiadau a brasluniau Gwen John yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Cedwir casgliad o'i llythyrau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gallwch weld ei hunig dirlun o Gymru a rhai eitemau personol yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod.

Roedd Gwen yn ymwybodol iawn y byddai'n gadael 'gwaddol' ar ei hôl ac y byddai ei gwaith celf yn cael ei edmygu ar ôl ei marwolaeth. Ysgrifennodd o gaffi ym Montparnasse yn 1910 at ei ffrind, Ursula Tyrwhitt:



Ffion Hague, (dde pellaf), a nithoedd Gwen John wrth y gofeb yn Dieppe yn 2015 © S4C

"Ni allaf ddechmygu pam y byddai gan fy ngwaith rhywfaint o werth yn y dyfodol - ond rwy'n gwybod y bydd."

Yn 2015, darlledodd S4C raglen ddogfen am Gwen, 'Gwen John: Y Daith Olaf'. Dangosodd y rhaglen gofeb yn cael ei dadorchuddio er cof amdani yn y Cimetière de Janval yn Dieppe, gyda'i nithoedd yn bresennol.

Mae dirgelwch ynghylch union leoliad bedd Gwen oherwydd cafodd ei gloddio er mwyn claddu meirw yr Ail Ryfel Byd. Yn ôl y cwmni cynhyrchu Tinopolis, canfuwyd ei bedd yn ei leoliad gwreiddiol yn dilyn eu hymchwiliad yn 2015. Ariannodd Tinopolis ac S4C y gofeb lechen Gymreig sydd ag arysgrif o un o lythyrau Gwen at aelod o'i theulu wedi ei chyfieithu i'r Ffrangeg:

"Mae pobl fel cysgodion i mi, ac rwyf innau fel cysgod iddyn nhw."